# Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru

## Fforwm Proffesiynol Amlasiantaeth (MAPF)

## Canllawiau Ymarfer

**Fersiwn 6**

| Fersiwn | Perchennog | Dyddiad cyhoeddi | Cymeradwyaeth gan y Bwrdd Gweithredol | Dyddiad adolygu | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| F1 | Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru | Hydref 2017 | Hydref 2017 | Hydref 2018 | Wedi'i chymeradwyo |
| F2 | Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru | Hydref 2017 | Hydref 2017 | Hydref 2018 | Wedi'i chymeradwyo |
| F3 | Bwrdd Diogelu Canolbarth a | Mai 2018 | Gorffennaf 2018 | Gorffennaf 2019 | Wedi'i chymeradwyo |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gorllewin Cymru | | | | |
| F4 | Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru | Hydref 2019 | Hydref 2019 | Hydref 2020 | Wedi'i chymeradwyo |
| F5 | Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru | Medi 2023 | Hydref 2023 | Hydref 2025 | Wedi'i chymeradwyo |
| F6 | Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru | Medi 2025 | Hydref 2025 | Hydref 2028 | Wedi'i chymeradwyo |

**Rheoli fersiynau'r ddogfen**

**CANLLAWIAU YMARFER**

## 1. Diben fforymau proffesiynol amlasiantaethol

Mae'r fforwm proffesiynol amlasiantaethol yn rhan o'r rhaglen barhaus o ddysgu gweithredol ar draws rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, a gafwyd trwy archwilio achosion a atgyfeiriwyd i Is-grŵp Adolygu Achosion Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae'r darn canlynol o'r *Adolygiad Diogelu Unedig Sengl: Canllawiau Statudol (Hydref 2024)* yn amlinellu pwrpas a meini prawf cynnal fforwm proffesiynol amlasiantaethol:

*9.10 Mae fforymau proffesiynol amlasiantaethol yn fecanwaith ar gyfer cynhyrchu dysgu sefydliadol, gwella ansawdd gwaith gyda theuluoedd, a chryfhau gallu gwasanaethau i gadw plant ac oedolion yn ddiogel. Yn unol â rheoliad 3(2)(i), mae'n ofynnol i'r Byrddau Diogelu drefnu a hwyluso rhaglen flynyddol o Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol. Gellir eu cynnull i archwilio cyfleoedd dysgu mewn achosion nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cwblhau ADUS [Adolygiad Diogelu Unedig Sengl]. Maent yn defnyddio gwybodaeth am achosion, canfyddiadau archwiliadau diogelu, arolygiadau, adolygiadau, a mathau eraill o ddysgu sy'n deillio o Storfa Ddiogelu Cymru i ddatblygu a lledaenu dysgu er mwyn gwella gwybodaeth ac ymarfer lleol, ac i lywio blaenoriaethau archwilio a hyfforddi'r Bwrdd Diogelu yn y dyfodol.*

*9.14 Mae dau brif ddiben i'r Fforymau:*

*a) Dysgu o achosion: trafodaeth wedi'i hwyluso, ymgynghori a myfyrio gan ymarferwyr, rheolwyr, neu grwpiau craidd, gan ddefnyddio dull systemau o archwilio a dadansoddi achosion unigol sy'n gyfredol neu nad ydynt yn weithredol bellach. Gallai'r rhain gynnwys achosion cymhleth lle bu canlyniadau da, achosion cyfredol sydd wedi aros yn eu hunfan, neu achosion sy'n achosi pryder neu ddiddordeb proffesiynol ond nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ADUS.*

*b) Lledaenu gwybodaeth a chanfyddiadau newydd: o archwiliadau diogelu amlasiantaethol ac o Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl, archwiliadau neu o ffynonellau lleol neu genedlaethol eraill, er mwyn sicrhau dysgu a datblygu amlbroffesiynol lleol parhaus.*

*9.15 Dylid sicrhau bod Fforymau sy'n canolbwyntio ar ddysgu o achosion yn ddigwyddiadau a hwylusir, a'u bod yn cael eu cynnal mewn amgylchedd sy'n darparu cymorth proffesiynol a diogel a her broffesiynol, gyda chyfres glir o egwyddorion neu brosesau gwaith fel bod staff yn gwybod beth i'w ddisgwyl a bod cyfrinachedd unrhyw ddeunydd achos yn cael ei barchu. Gall y Fforymau ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau creadigol sydd eisoes yn gyfarwydd mewn hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus, fel goruchwyliaeth amlasiantaethol, ymchwiliad gwerthfawrogol, neu gerflunio fel y bo'n briodol. Dylid cofnodi'r dysgu o ran ymarfer a'i adrodd yn ffurfiol i'r Bwrdd Diogelu, ac i deuluoedd lle bo'n briodol. Gall y dysgu gael ei ledaenu'n*

*ehangach gan yr Hwb Cydgysylltu, yn lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol, gan gyfrannu'r un pryd at adolygiad blynyddol y Bwrdd Diogelu o'i Gynllun Busnes.*

Unwaith y bydd atgyfeiriad wedi'i gwblhau, caiff ei rannu â'r Is-grŵp Adolygu Achosion, a fydd yn argymell naill ai Adolygiad Diogelu Unedig Sengl, fforwm proffesiynol amlasiantaethol neu, fel arall, proses un asiantaeth i gadeirydd CYSUR/CWMPAS i'w chymeradwyo.

Er y gall asiantaeth gyflwyno'r atgyfeiriad gyda'r bwriad o benderfynu a yw fforwm proffesiynol amlasiantaethol, Adolygiad Diogelu Unedig Sengl neu fecanwaith arall yn fwyaf priodol, mae'r atgyfeiriad yn generig ar adeg ei gyflwyno, gyda'r penderfyniad ynghylch pa broses i'w hargymell yn cael ei wneud gan yr is-grŵp. Am y rheswm hwn, defnyddir yr un ffurflen i argymell fforymau proffesiynol amlasiantaethol ac Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl.

**2. Amlinelliad o swyddogaethau**

- Darparu sylfaen ar gyfer dysgu sefydliadol.
- Gwella ansawdd y gwaith gydag oedolion, teuluoedd/plant a phob defnyddiwr gwasanaeth.
- Cryfhau gallu gwasanaethau i gadw plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn ddiogel.
- Sicrhau dysgu a datblygiad amlbroffesiynol lleol parhaus.

**3. Cyd-destun deddfwriaethol a chyfarwyddyd**

- Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015
- Adolygiad Diogelu Unedig Sengl: Canllawiau Statudol (Hydref 2024)

4. **Dull gweithredu ar gyfer digwyddiadau dysgu**

- Bydd pob awdurdod yn cynnal digwyddiadau dysgu yn unol â nifer y fforymau proffesiynol amlasiantaethol a argymhellir gan yr Is-grŵp Adolygu Achosion rhanbarthol; disgwylir na fydd hyn yn llai na dau bob blwyddyn (un oedolyn / un plentyn). Bydd y dysgu a geir yn cael ei rannu gyda'r Is-grŵp Adolygu Achosion.
- Cynhelir y digwyddiadau mewn amgylchedd sy'n darparu cefnogaeth a her broffesiynol ddiogel.
- Rhaid i'r broses fod yn ymwneud â dysgu agored a thryloyw, ac nid ynghylch rhannu bai.
- Cytunir ar set glir o egwyddorion gweithio ar ddechrau pob digwyddiad.
- Bydd staff yn cael gwybod beth i'w ddisgwyl, pa baratoadau sydd eu hangen, a sut y byddant yn gwneud eu cyfraniad.

- Bydd y digwyddiadau'n cael eu hwyluso drwy drafodaeth, ymgynghori a myfyrio.
- Bydd ethos "Arwyddion Diogelwch", dull sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n archwilio cwestiynau fel "Beth sy'n gweithio'n dda?", "Beth rydyn ni'n poeni amdano?" a "Beth sydd angen digwydd?" i ddatblygu nodau ymarferol clir, yn sail i'r digwyddiadau dysgu.
- Bydd cyfrinachedd yn cael ei gynnal.
- Bydd y dysgu ymarferol yn cael ei gofnodi yn ystod y digwyddiad, a'i adrodd yn ffurfiol i'r Grwpiau Gweithredol Lleol ac i'r Is-grŵp Adolygu Achosion.
- Bydd anghenion hyfforddi staff unigol, camymddygiad staff neu esgeulustod a nodwyd yn cael eu rheoli gan yr asiantaethau priodol.
- Bydd unrhyw newidiadau i bolisi, protocolau neu ddarpariaeth gwasanaeth o ganlyniad i'r digwyddiad dysgu yn digwydd cyn gynted â phosibl.

## 5. Atebolrwydd a llinell adrodd

Bydd y fforwm proffesiynol amlasiantaethol yn atebol i'r Grŵp Gweithredol Lleol perthnasol.

## 6. Llywodraethiant

Bydd yr asiantaeth arweiniol ar gyfer y fforwm proffesiynol amlasiantaethol yn gyfrifol am reoli a chyflawni'r broses. Yr awdurdod lleol fydd hwn fel arfer lle'r roedd yr unigolyn neu unigolion sydd dan sylw'r fforwm proffesiynol amlasiantaethol fel arfer yn byw, ond gellir cytuno ar asiantaeth arweiniol arall os yw hyn yn briodol i amgylchiadau'r achos.

Bydd y fforwm proffesiynol amlasiantaethol yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau gydweithio i gyflawni dull dysgu amlasiantaethol ac, o ganlyniad, bydd angen i asiantaethau gydweithio a gwneud penderfyniadau ar y cyd mewn perthynas ag agweddau allweddol ar y fforwm proffesiynol amlasiantaethol.

Rhaid i adroddiad a chynllun gweithredu'r fforwm proffesiynol amlasiantaethol gael eu cytuno yn y lle cyntaf gan bob asiantaeth sy'n ymwneud â'r broses ac wedi hynny gan y Grŵp Gweithredol Lleol, a fydd yn gyfrifol am weithredu'r cynllun gweithredu cysylltiedig.

Bydd adroddiad a chynllun gweithredu y fforwm proffesiynol amlasiantaethol yn cael eu storio dan feddiant yr asiantaeth arweiniol a nodwyd yn unol â'u polisïau llywodraethu gwybodaeth a chadw data mewnol. Nid yw'r adroddiad yn ddogfen gyhoeddedig, ond gall asiantaeth arweiniol y fforwm proffesiynol amlasiantaethol ddewis rhannu'r ddogfen hon os ydynt yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny a chyda'r cytundeb angenrheidiol gan yr asiantaethau sy'n rhan o'r fforwm proffesiynol

amlasiantaethol. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, ei rhannu gyda'r unigolyn sy'n ymwneud â'r fforwm proffesiynol amlasiantaethol ac aelodau'r teulu.

Wrth wneud ystyriaethau o'r fath, dylai asiantaethau gael eu llywio gan eu polisïau a'u canllawiau llywodraethu gwybodaeth eu hunain.

Gall Uned Fusnes CYSUR/CWMPAS gefnogi'r gwaith o hwyluso a chyflawni proses y fforwm proffesiynol amlasiantaethol drwy ddarparu cymorth, cyngor ac arweiniad.

## 7. Aelodaeth o Grŵp Cynllunio'r Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol

Bydd aelodaeth o Grŵp Cynllunio'r Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol yn cynnwys o leiaf un cynrychiolydd o bob gwasanaeth/asiantaeth sy'n ymwneud â'r achos sy'n destun y fforwm proffesiynol amlasiantaethol. Fel isafswm, bydd hyn yn cynnwys fel a ganlyn:

- Gwasanaethau oedolion a/neu blant yr awdurdod lleol
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda / Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Heddlu Dyfed-Powys

Bydd aelodaeth hefyd yn cael ei chyfethol yn ôl yr angen o asiantaethau neu wasanaethau perthnasol sy'n gysylltiedig â'r achos a/neu ganlyniadau dysgu. Gallai hyn gynnwys i'r canlynol heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Gwasanaethau addysg a/neu addysg bellach
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Tai (yr awdurdod lleol neu ddarparwr allanol)
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Cafcass
- Gwasanaethau comisiynu

Gall cynrychiolydd o Uned Fusnes CYSUR/CWMPAS hefyd fynychu cyfarfodydd y grŵp cynllunio er mwyn cefnogi hwyluso'r broses.

## 8. Gweinyddiaeth

- Bydd papurau briffio a chrynodebau achosion yn cael eu dosbarthu cyn pob digwyddiad.
- Darperir cymorth gweinyddol ar gyfer y digwyddiadau dysgu ac unrhyw gyfarfodydd cynllunio blaenorol o fewn ardal yr awdurdod lleol.

## 9. Pa mor aml yw'r cyfarfodydd

Bydd pob fforwm proffesiynol amlasiantaethol yn cynnull grŵp cynllunio pwrpasol ac yn cytuno ar amlder a nifer priodol o gyfarfodydd.

Bydd monitro cyffredinol o raglen y fforwm proffesiynol amlasiantaethol yn digwydd:

- Yn lleol yng nghyfarfodydd chwarterol y Grwpiau Gweithredol Lleol
- Yn rhanbarthol yng nghyfarfodydd yr Is-grŵp Adolygu Achosion

Bydd cyfathrebu a diweddariadau anffurfiol yn digwydd gyda Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru rhwng y mecanweithiau llywodraethu ffurfiol hyn i sicrhau bod fforymau proffesiynol amlasiantaethol yn parhau i symud ymlaen a chael cymorth gan yr Uned Fusnes.

## 10. Adolygu'r canllawiau ymarfer

Bydd y canllawiau ymarfer yn cael eu hadolygu gan Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn rheolaidd yn unol â'r amserlen gyffredinol ar gyfer adolygu polisïau a gweithdrefnau.

## 11. Pecyn cymorth

Mae Uned Fusnes CYSUR/CWMPAS wedi datblygu pecyn cymorth i fforymau proffesiynol amlasiantaethol sy'n seiliedig ar arferion gorau o ddigwyddiadau a hwyluswyd ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r adnoddau hyn ar gael gan yr Uned Fusnes i gefnogi asiantaethau wrth gynnal eu fforymau proffesiynol amlasiantaethol.